Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Talysarn

Talysarn
Caernarfon
Gwynedd
LL54 6HR

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Talysarn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Talysarn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 96 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 73 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 11 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 21.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 26.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 53.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2007 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 14/11/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 17/11/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae ffederasiwn Talaerau, sy’n cynnwys ysgolion Talysarn a Brynaerau, yn gymuned gynnes a gofalgar lle mae lles a chynnydd disgyblion yn greiddiol i’w ethos. Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae’r staff yn rhannu a gweithredu ei gweledigaeth yn effeithiol. Mae’r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng staff a disgyblion yn gryf, sy’n cyfrannu at amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae disgyblion yn barod i ddysgu.

Trwy gyd-gynllunio effeithiol, mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy’n ymgysylltu â diddordebau’r disgyblion ac yn darparu cyfleoedd pwrpasol i bron bob un gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn ffyrdd ystyrlon. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu medrau disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac, o ganlyniad, mae bron pob un yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus sy’n cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae staff yn fodelau iaith cadarn ac yn darparu cyfleoedd cyson i feithrin siaradwyr Cymraeg naturiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos hyder cynyddol yn eu medrau llafar ac yn datblygu balchder yn eu hunaniaeth Gymraeg.

Trwy themâu dosbarth, cyfnodau myfyrio a sesiynau addoli, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i archwilio gwerthoedd fel caredigrwydd, parch ac empathi, gan gyfrannu at eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn fuddiol.

Mae llais y disgybl yn elfen sefydledig o fywyd a gwaith y ffederasiwn, gyda grwpiau disgyblion yn cyfrannu’n bwrpasol at agweddau pwysig yr ysgol, gan gynnwys hybu presenoldeb a phrydlondeb cyson. Fodd bynnag, mae cyfradd absenoldeb parhaus ychydig o ddisgyblion yn parhau’n uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu cynllunio’n ofalus, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar wella ansawdd yr addysgu a chynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn cynnig her briodol a chefnogaeth fuddiol wrth fonitro a gwerthuso’r ddarpariaeth.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Gwella presenoldeb ychydig o ddisgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r ffederasiwn yn gymuned ofalgar a theuluol lle mae lles a chynnydd pob disgybl wrth wraidd y ddarpariaeth. Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol ac ymroddedig sy'n darparu cyfeiriad strategol clir wrth gyfathrebu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer darparu profiadau cyfoethog i ddisgyblion mewn amgylchedd dysgu cynhwysol. Yn greiddiol i'r weledigaeth gytûn, mae'r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng y staff a'r disgyblion yn nodwedd gref. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu hysgogi i ymroi o'u gorau.

Mae athrawon ar draws y ffederasiwn yn cydweithio'n hynod effeithiol i gynllunio a darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Trwy gyd-gynllunio trefnus, maent yn darparu ystod o brofiadau diddorol a chyfoethog sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau, a dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu. Mae athrawon yn gwrando'n ofalus ar ddyheadau disgyblion ac yn defnyddio eu syniadau i fireinio a chyfoethogi cynlluniau. O ganlyniad, mae'r themâu tymhorol yn ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus, gan ddatblygu a dyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth dros amser. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad llwyddiannus, gan gynnwys ym medrau mathemateg a digidol bron bob disgybl.

### Ciplun: Cydweithio effeithiol ar draws y ffederasiwn i ddatblygu medrau digidol disgyblion

Mae cydweithio cryf ar draws y ffederasiwn yn elfen ganolog o lwyddiant y ddarpariaeth ddigidol. Mae athrawon yn cyd-gynllunio'n ofalus i ddarparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gydweithio er mwyn datblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus. Er enghraifft, fel rhan o waith thema, trefnodd yr athrawon gyfarfodydd ar-lein er mwyn cefnogi disgyblion o'r ddwy ysgol i gydweithio i ddylunio a chreu gwefan gynhwysfawr am wledydd y byd. Yn ystod y prosiect hwn, roedd disgyblion yn ymchwilio i gasglu a choladu gwybodaeth, yn mewnbynnu gwybodaeth allweddol i gronfa ddata bwrpasol ac yn defnyddio'r wybodaeth i ddidoli a dadansoddi data yn effeithiol.

Mae'r dull hwn o gydweithio yn hynod lwyddiannus wrth ddatblygu ystod eang o fedrau disgyblion. Yn ogystal â chryfhau eu medrau digidol, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i wella eu medrau llythrennedd a'u rhifedd, ac yn meithrin eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwerthfawrogi bod eu dysgu yn berthnasol i'r byd go iawn ac yn dangos lefelau uchel o frwdfrydedd ac ymrwymiad.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gydweithio ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Maent yn cynllunio tasgau sy'n annog disgyblion i ddysgu'n annibynnol, mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Mae holi medrus staff yn

annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach, i wneud cysylltiadau ystyrlon ac i ddefnyddio eu medrau meddwl yn ffurfiol er mwyn datrys problemau mewn ystod gyfoethog o brofiadau dysgu. O ganlyniad, o oedran cynnar, mae bron bob disgybl yn datblygu i fod yn ddysgwr annibynnol hyderus.

Mae gan athrawon berthynas gynhaliol â'r disgyblion. Maent yn hwyluswyr naturiol o'r dysgu sy'n cefnogi dealltwriaeth disgyblion o wneud cynnydd yn eu medrau yn effeithiol. Mae athrawon yn arwain y disgyblion i ddeall ffyrdd o wella eu gwaith yn fedrus, yn enwedig wrth ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith. Mae'r holl staff yn fodelau iaith da ac yn anelu'n gyson at feithrin y disgyblion i fod yn siaradwyr Cymraeg naturiol. Trwy fentrau fel 'Clwb Clebran' a 'Tîm Taran', maent yn rhoi cyfrifoldebau pwrpasol i ddisgyblion er mwyn hybu eu cyfoedion i siarad Cymraeg yn naturiol yn ystod amseroedd egwyl ac mewn cyd-destunau anffurfiol eraill. Mae hyn yn arwain at welliant amlwg ym medrau llafar Cymraeg bron bob disgybl ac yn meithrin balchder at eu hunaniaeth Gymraeg.

Mae grwpiau llais y disgybl wedi'u sefydlu'n gryf ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Trwy gyfranogiad mewn penderfyniadau a phrosiectau, mae disgyblion yn teimlo bod eu llais yn cael ei werthfawrogi ac mae hyn yn cryfhau eu hunan-barch a'u hymrwymiad i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn gadarn. Mae disgyblion y cyngor ysgol yn flaengar wrth annog presenoldeb a phrydlondeb cyson disgyblion i'r ysgol. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwaith hwn, mae cyfradd absenoldebau parhaus ychydig o ddisgyblion yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Trwy themâu dosbarth a chyfnodau cyd-addoli pwrpasol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ystyried materion moesegol a gwerthoedd fel caredigrwydd a pharch tuag at eraill yn y gymdeithas. Mae arweinwyr yn hyrwyddo amgylchedd aml-ddiwylliannol cadarnhaol sy'n dathlu amrywiaeth ac yn meithrin dealltwriaeth y disgyblion o wahanol gefndiroedd a thraddodiadau. Mae hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos empathi, caredigrwydd a pharch tuag at ei gilydd ac eraill.

Mae'r pennaeth wedi llwyddo i adeiladu a meithrin tîm cydlynus o staff sy'n rhannu ei hangerdd a'i phenderfyniad i ddarparu'r addysg orau bosibl i bob disgybl. Mae disgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a'r staff, law yn llaw â darparu cefnogaeth sensitif iddynt, yn creu diwylliant o wella parhaus. Trwy amrywiaeth o ddulliau monitro a gwerthuso, sy'n cynnwys arsylwadau addysgu a dysgu, craffu ar waith disgyblion a thrafodaethau proffesiynol rheolaidd, mae arweinwyr a staff yn datblygu dealltwriaeth glir o brif gryfderau'r ffederasiwn a'r meysydd i'w datblygu.

Mae dysgu proffesiynol sy’n cael ei ddarparu i staff o fewn y ffederasiwn yn elfen allweddol o’i lwyddiant parhaus. Mae’r pennaeth yn dyrannu cyfrifoldebau i’r staff mewn modd synhwyrol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i staff ddatblygu eu rôl arweinyddol, gan rannu eu harbenigeddau a’u harferion gorau â’i gilydd o fewn y ffederasiwn a gydag ysgolion cyfagos.

### Ciplun: Effaith gadarnhaol dysgu proffesiynol ar ansawdd addysgu a chynnydd disgyblion

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gael i staff sydd wedi’u cynllunio’n ofalus i adlewyrchu blaenoriaethau gwella’r ysgolion yn ogystal â dyheadau datblygiadol staff unigol. O ganlyniad, mae athrawon yn elwa o hyfforddiant dyfnach a mwy pwrpasol sy’n meithrin eu dealltwriaeth o ddulliau addysgu effeithiol, cyflwyno’r  cwricwlwm ac arferion asesu cadarn.

Mae’r ffocws cryf hwn ar ddatblygu staff yn arwain at welliannau mesuradwy yn ansawdd yr addysgu ar draws y ffederasiwn. Trwy’r cyfleoedd buddiol hyn, mae athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth yn hyderus a chyson i feithrin dyfnder yn y dysgu, ac mae hyn, yn ei dro, yn cyfrannu at gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim a’r rhai o aelwydydd incwm isel.

Mae llywodraethwyr yn rhannu’r ymrwymiad i feithrin cymuned ddysgu gynhwysol ac uchelgeisiol. Maent yn deall eu cyfrifoldebau’n dda, yn monitro cynnydd yn ofalus ac yn cynnig her a chefnogaeth bwrpasol i arweinwyr. Mae perthnasoedd cryf â rhieni a’r gymuned ehangach yn cyfoethogi profiadau disgyblion ac yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o falchder a pherthyn i ysgolion y ffederasiwn.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2026